

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad ar ddefnyddio maglau yng Nghymru

Mehefin 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad ar ddefnyddio maglau yng Nghymru

Mehefin 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 29 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd, ynni, rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mike Hedges AC (Cadeirydd)

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Gareth Bennett AC

UKIP Cymru
Canol De Cymru



Jayne Bryant AC

Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd



Huw Irranca-Davies AC

Llafur Cymru
Ogwr



Siân Gwenllian AC

Plaid Cymru
Arfon



David Melding AC

Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Jenny Rathbone AC

Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Simon Thomas AC

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelodaeth canlynol hefyd yn aelod o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Mark Reckless AC (Cadeirydd)

UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



Vikki Howells AC

Llafur Cymru
Cwm Cynon

Cynnws

Casgliadau ac argymhellion	5
01. Cyflwyniad.....	7
02. Y gyfundrefn monitro a gorfodi gyfredol	10
03. Effeithiolrwydd y Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid.....	17
04. Datblygu deddfwriaeth berthnasol yn y dyfodol yn ymwneud â lles anifeiliaid	20
05. Dewisiadau amgen yn lle defnyddio maglau	22
Atodiad – Rhestr o’r dystiolaeth	24

Casgliadau ac argymhellion

Mae maglau yn ddull o reoli plâu sy'n peri risg i les rhywogaethau targed a rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu. Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru, ac eraill, yn eu hymdrechion i annog pobl i'w defnyddio'n ofalus fel dewis pan fetha popeth arall, drwy weithredu'r 'Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid' ('y Cod').

O ystyried y risg i les anifeiliaid, credwn ei bod yn hanfodol gwneud pob ymdrech i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cefnogi polisiau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Mae'r ymchwiliad hwn wedi dangos i ni fod bylchau sylweddol yn y data sydd ar gael er mwyn deall i ba raddau y defnyddir maglau yng Nghymru, pa mor effeithiol ydynt ac a ydynt yn rheoli plâu heb fod yn greulon.

Rydym wedi nodi argymhellion sy'n ceisio creu fframwaith ar gyfer casglu'r data gofynnol ac i ddefnyddio'r data hyn wrth adolygu'r polisi cyfredol

Os gellir dangos drwy'r data bod y dull hwn yn effeithiol a dangos nad yw'n greulon, yna rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu ei dull yn rheolaidd. Os na, yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall weithredu'n gyflym. Byddai'r risg i les anifeiliaid yn annerbyniol o dan yr amgylchiadau hyn. Rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi deddfwriaeth ddrafft yn awr i sicrhau ei bod mewn sefyllfa i weithredu ar unwaith pe bai ymdrechion cyfunol y Llywodraeth, y diwydiant a thirfeddianwyr yn methu â chyflawni uchelgeisiau'r Cod.

Os bydd y data'n dangos bod lefel annerbyniol o rywogaethau nad ydynt wedi'u targedu yn wynebu lefel ddiangen o ddiodeffaint er mwyn rheoli llwynogod, yna rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn barod i gymryd camau pendant. Rydym wedi amlinellu'r camau rydym yn credu y dylid eu cymryd yn Argymhellion 3 a 4.

Rydym yn bwriadu monitro'r maes polisi hwn ac yn bwriadu dychwelyd at y mater yn ddiweddarach eleni. Hoffem ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â'r grwpiau hyn ac eraill yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dyma'r argymhellion a wnaed gennym:

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad blynyddol o'r Cod a chyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw. Tudalen 15

Argymhelliad 2. Os bydd yr adolygiad blynyddol o'r Cod yn dangos nad yw'n gweithio, yna dylai Llywodraeth Cymru dynhau'r gyfraith ar ddefnyddio maglau yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno cosbau am beidio â chydymffurfio â'r Cod.Tudalen 15

Argymhelliad 3. Os bydd tystiolaeth yn dangos nad yw'r dull gwirfoddol wedi llwyddo, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi deddfwriaeth ddrafft. Wrth baratoi'r ddeddfwriaeth honno, dylid ystyried yr opsiynau a ganlyn:

- cyflwyno gofynion tebyg i'r rhai yn yr Alban ynghylch hyfforddiant ac adnabod, ac ymchwilio i system drwyddedu i'w hariannu gan ddefnddwy;
- a ddylid gwneud perchennog y tir lle y canfyddir maglau yn atebol i gael ei erlyn; gallai hyn leihau problemau o ran cadarnhau pwy sy'n berchen ar faglau a thrafferthion o ran sicrhau erlyniadau llwyddiannus. ... Tudalen 15

Argymhelliad 4. Os dangosir nad yw'r mesurau gorfodi diwygiedig a restrir yn Argymhelliad 3 yn lleihau dioddefaint yn y gwaith o reoli plâu drwy ddefnyddio maglau nac yn ei wneud yn fwy effeithlon, yna dylai Llywodraeth Cymru ystyried deddfu i wahardd y defnydd o faglau.Tudalen 15

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad o'r bylchau o ran y data sydd ar gael a chymryd camau brys i gael y wybodaeth sydd ei hangen i asesu effeithiolrwydd ei pholisi.Tudalen 16

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Medi 2018, ac yn flynyddol wedi hynny, ar y graddau y defnyddir maglau yng Nghymru. Fel rhan o'r broses adrodd hon, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu system ar gyfer pennu nifer yr anifeiliaid a pharywogaethau sy'n cael eu dal mewn maglau.Tudalen 16

Argymhelliad 7. Dylid gwahardd y defnydd o faglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r cod ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.Tudalen 16

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell y dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cod ar yr arfer orau adrodd ar:

- gamau gorfodi mewn perthynas â'r Cod a nifer yr erlyniadau llwyddiannus, os o gwbl;
- cost ac argaeledd maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod; a
- nifer y bobl sy'n cael eu hyfforddi i ddefnyddio maglau yn unol â'r Cod a'r dulliau a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwnnw.
.....Tudalen 19

01. Cyflwyniad

1. Caiff maglau eu defnyddio yng nghefn gwlad Cymru gan ffermwyr a chiperiaid i reoli'r boblogaeth llwynogod a chwingod. Y bwriad yw dal yr anifail cyn iddo gael ei ladd. Gellir eu gosod hefyd at amrywiaeth o ddibenion eraill gan gynnwys, er enghraifft, dal cwingod i'w bwyta a dal llwynogod ar gyfer rhaglenni ymchwil. Mae'r rhywogaethau targed eraill y gellir eu dal yn gyfreithlon yn cynnwys llygod mawr, gwiwerod llwyd a mincod. Mae'r rhywogaethau eraill sy'n cael eu dal ond nad ydynt yn cael eu targedu yn cynnwys moch daear, ysgyfarnogod, ffesantod, ceirw, cathod a chŵn.
2. Ceir dau fath o fagl anifeiliaid: magl ddirwyn a magl gloi. Y bwriad yw bod magl ddirwyn yn llacio pan fydd anifail yn stopio tynnu, tra bod magl gloi yn parhau i dynhau. Er bod maglau dirwyn yn gyfreithlon ledled y DU, ceir gwaharddiad ar faglau cloi am resymau rheoli bywyd gwyllt.

Cefndir a dull gweithredu

3. Yn 2012, cyhoeddodd Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU (Defra) adroddiad o'r enw, '[Determining the extent and humaneness of snares in England and Wales](#)'¹. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion astudiaethau o gyfraddau'r defnydd o faglau. Yn y cyfnod ymchwil dan sylw (2008-2012), defnyddiwyd rhwng 17,200 a 51,600 o faglau ar unrhyw adeg yng Nghymru. Amcangyfrifir y cafodd 1.7 miliwn o anifeiliaid² eu dal mewn maglau bob blwyddyn ledled Cymru a Lloegr³. O blith y rhywogaethau nad oeddent wedi'u targedu, moch daear a gafodd eu dal amlaf, a daliwyd moch daear ym mhob un o'r treialon maglau llwynogod. O'r 17 o ddefnyddwyr maglau cwingod a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth, roedd pump ohonynt wedi dal cath ddof o leiaf unwaith.

Defnyddio maglau mewn rhannau eraill o'r DU

Yn Lloegr, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n rheoli'r defnydd o faglau. Fel yng Nghymru, mae 'Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid yn Lloegr'.⁴ Yn yr Alban, Gorchymyn Maglau (Yr Alban) 2010⁵ sy'n rheoli'r defnydd o faglau, ynghyd â chanllaw ar gyfer y diwydiant a luniwyd i roi cyngor i weithredwyr sy'n defnyddio maglau ar yr arfer gorau.⁶ Mae'r canllaw yn cwmpasu dulliau maglu ar gyfer maglau llwynogod a maglau cwingod. Mae Llywodraeth yr Alban wedi tynhau'r rheoliad⁷ ynghylch defnyddio maglau cyfreithlon, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol bod pob unigolyn sy'n gosod maglau yn cael hyfforddiant a bod tagiau'n cael eu rhoi ar faglau sy'n cael eu gosod fel bod modd olrhain maglau i unigolyn.

Caiff y defnydd o faglau yng Ngogledd Iwerddon ei reoleiddio gan Orchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985, a ddiwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Naturiol (GI) 2011,⁸ gyda'r olaf yn cyflwyno rheolaethau newydd dros ddefnyddio maglau. Mae'r rhain yn debyg yn

¹ <http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=0&ProjectID=14689>

² Cynhyrnod Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin becyn dadl ar faglau ym mis Gorffennaf 2016. Ar dudalen 10 mae'n nodi bod un anifail yn cael ei ddal ar gyfartaledd am bob 31 diwrnod y bydd magl wedi'i osod. Os yw'r cyfartaledd hwn yn gyson ledled Cymru a Lloegr, rhaid dod i'r casgliad bod 1.7 miliwn o anifeiliaid yn cael eu dal mewn maglau bob blwyddyn.

³ Determining the extent and humaneness of snares in England and Wales', adroddiad a gyflwynwyd i Defra, 2010

⁴ www.gwct.org.uk/media/680075/Snaring-Best-Practice-Booklet.pdf

⁵ www.legislation.gov.uk/ssi/2010/8/made

⁶ www.gov.scot/Resource/0041/00412984.pdf

⁷ www.gov.scot/Topics/Environment/Wildlife-Habitats/management/snaring-training

⁸ www.legislation.gov.uk/niu/2011/15/contents/enacted

fras i'r rheoliad sy'n ymwneud â maglau yng Nghymru a Lloegr. Ym mis Hydref 2015, cymeradwywyd Gorchymyn Maglau (Gogledd Iwerddon) 2015⁹ gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon. Byddai hyn wedi cyflwyno nifer o gyfyngiadau a gofynion ychwanegol ar ddefnyddio maglau, ond ym mis Tachwedd 2015 penderfynodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon y byddai'n gohirio'r Gorchymyn er mwyn cynnal ymgynghoriadau pellach, oherwydd y teimladau cryf ar y mater.

4. Ar 27 Medi 2016, cyflwynodd y Gynghair yn Erbyn Chwaraeon Creulon (LACS) ddeiseb, â 1,405 o lofnodion, i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad.¹⁰ Bu'r pwyllgor hwnnw'n ystyried tystiolaeth ysgrifenedig gan bartion â diddordeb ochr yn ochr â'r ddeiseb, gan gynnwys **llythyr ar y cyd**¹¹ gan y Gynghair Cefn Gwlad, yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt a Sefydliad Cenedlaethol y Ciperiaid, a oedd yn anghytuno â'r ffigurau yn nhestun y ddeiseb ac yn herio sylwadau'r Gynghair yn Erbyn Chwaraeon Creulon ar greulondeb maglau. Mae'r wybodaeth berthnasol ar gael ar dudalennau'r Pwyllgor Deisebau ar y we.¹²
5. Penderfynodd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad gyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ei ystyried ymhellach.
6. Penderfynodd y Pwyllgor ymchwilio i'r arfer a materion yn ymwneud â'r defnydd o faglau yng Nghymru, ac ystyried a oedd angen cymryd camau pellach.
7. Ar 30 Tachwedd 2016, clywyd tystiolaeth lafar gan y rhanddeiliaid a ganlyn:
 - y Gynghair yn Erbyn Chwaraeon Creulon;
 - yr Ymgrych Genedlaethol yn Erbyn Maglau;
 - y Gynghair Cefn Gwlad;
 - Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain;
 - yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt.
8. Ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 26 Hydref 2016, gan ofyn beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar y defnydd o faglau yng Nghymru.¹³ Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 10 Tachwedd 2016.¹⁴ Ar 14 Rhagfyr 2016, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet ar safbwynt Llywodraeth Cymru.¹⁵ Yn dilyn y cyfarfod hwnnw ar 14 Rhagfyr 2016, ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn am ragor o wybodaeth.¹⁶ Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 18 Ionawr 2017.¹⁷

⁹ www.legislation.gov.uk/nisr/2015/352/contents/made

¹⁰ www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=430&MIId=3726&Ver=4

¹¹ www.senedd.assembly.wales/ieIssueDetails.aspx?IId=15974&Opt=3

¹² www.senedd.cynulliad.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=15974&PlanId=0&Opt=3

¹³ Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 26 Hydref 2016

¹⁴ [Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016](#)

¹⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr paragraff 163

¹⁶ Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Ysgrifennydd y Cabinet, 26 Hydref 2016

¹⁷ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

9. Mae trawsgrifiadau o'r cyfarfodydd hyn a'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.¹⁸

¹⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig,
<http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s56943/30%20November%202016.pdf>

02. Y gyfundrefn monitro a gorfodi gyfredol

10. Ar 25 Medi 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid'¹⁹ ar gyfer y rheini sy'n defnyddio maglau yng nghefn gwlad ar hyn o bryd. Mae'n god statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'r Cod yn crynhoi'r rhwymedigaethau cyfreithiol cyfredol ar y rheini sy'n defnyddio maglau ac yn amlinellu'r canllawiau arfer gorau y dylid eu dilyn.

11. Penderfynodd y Pwyllgor edrych ar wahanol agweddau ar y Cod, gan gynnwys cyfraddau defnydd, cydymffurfriad a monitro, ers iddo gael ei gyflwyno yn 2015.

Y cefndir deddfwriaethol

12. Ar hyn o bryd mae'r ddeuwriaeth sy'n rheoli'r defnydd o faglau i'w chael yn Adran 11 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, a Deddf Lles Anifeiliaid 2006. O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd gwneud y canlynol ar hyn o bryd:

- gosod magl gloi mewn ffordd y bwriadwyd iddi achosi anaf corfforol i unrhyw anifail gwyllt (Adran 11(1)(a));
- lladd neu gymryd unrhyw anifail gwyllt gan ddefnyddio magl gloi (Adran 11(1)(b));
- gosod magl (neu declyn arall) mewn modd y bwriadwyd iddo achosi anaf corfforol i unrhyw anifail a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf, er enghraifft moch daear (Adran 11(2)(a));
- lladd neu gymryd unrhyw anifail a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf gan ddefnyddio magl (Adran 11(2)(b));
- gosod magl ac yna methu ag archwilio'r fagl honno (neu sicrhau bod rhywun arall yn ei harchwilio) o leiaf unwaith bob dydd (Adran 11(3)(b));
- gosod unrhyw fath o fagl oni bai eu bod yn 'berson awdurdodedig' o dan y Ddeddf (hynny yw, perchennog neu feddiannydd y tir lle y gosodir y fagl, unrhyw berson a awdurdodir gan berchennog neu feddiannydd y tir, neu berson a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal (Adran 27(1));
- meddu ar fagl at ddibenion cyflawni unrhyw un o'r tramgwyddau uchod (Adran 18(2)).

13. Mae adran 11 (4) yn rhoi rhai pwerau cyfyngedig i Weinidogion Cymru ddiwygio'r modd y caiff eu defnydd ei reoleiddio ond dim ond at y diben o gydymffurfio â rhwymedigaeth ryngwladol. Byddai angen newidiadau i gyfraith sylfaenol er mwyn gwneud unrhyw ddiwygiadau eraill.

14. O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae unigolyn yn gyfrifol am gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion lles pob anifail o dan ei reolaeth, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu dal mewn maglau, yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn yr anifail rhag poen a dioddefaint.

15. Mae iechyd a lles anifeiliaid yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mae'n fater sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac mae modd i Weinidogion Cymru ddiwygio Deddf Lles Anifeiliaid 2006. O dan Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae Gweinidogion Cymru yn gallu cyhoeddi cod ymarfer i reoli'r defnydd o faglau i reoli cadnoid.

¹⁹ <http://gov.wales/docs/desh/publications/150915-code-of-practice-snares-cy.pdf>

Statws y Cod ymarfer

16. Mynegodd rhai tystion bryder am statws cyfreithiol Cod ymarfer Llywodraeth Cymru. Roedd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) a'r Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon o'r farn bod cydymffurfiaeth â'r Cod ymarfer yn wirfoddol i bob pwrpas, gan ddweud:

“... the current situation is not only that there is no ban—there is a code of practice, which is in itself voluntary in practical terms. They might be statutory in the terms that the Animal Welfare Act says you can have a code of practice, but for the person who uses it, it's voluntary. If they don't want to use it and they don't break the law, you cannot prosecute a person for not using the Welsh code of practice. You can use it in court, if they have broken the law, to increase the sentences or perhaps as a defence, but as the Animal Welfare Act says specifically, the code of practice cannot be used for prosecution.”²⁰

17. Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Cod ymarfer yn ei gwneud yn glir mai dim ond fel dewis olaf y dylid ystyried defnyddio maglau. Esboniodd statws cyfreithiol y Cod hefyd, gan nodi ei fod yn god statudol o dan Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, ond gan ychwanegu:

“Nid yw peidio â chydymffurfio â'r Cod yn drosedd ynddo'i hun, ond gallai llys farnu bod rhywun yn atebol o weld nad yw wedi cadw at y Cod.”²¹

Gorfodi

18. Mae'r Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon a'r Ymgyrch yn Erbyn Maglau yn credu bod y gyfraith yn anodd ei gorfodi yn y maes hwn, a'i bod yn hynod o anodd adnabod ac erlyn y rhai sy'n defnyddio maglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cod. Dywedodd y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon:

“... most of the snares are on private land, so the only person who's going to see them is the landowner or the person that set them up. If there has been an infraction, obviously they will not report it to the police, and, if they won't report it to the police, it will be an infraction that is no breach. So, how do you ensure that the code works when it is self-policed by those that set the snares?”²²

19. Aeth ymlaen i ddweud y byddai gwaharddiad llwyr ar y defnydd o faglau yn haws ei orfodi na'r trefniadau a nodir yn y Cod.²³

20. Wrth ateb cwestiwn ar sut y gellir gorfodi'r Cod, o ystyried pa mor anodd yw cael mynediad i'r tir preifat lle y defnyddir maglau, dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad:

“... we know as an organisation that this [Code] has been very well received. Our message has been pretty hard: you either use this code, use code-compliant snares and get on with the job correctly, or you will face losing the use of the snare in Wales. So, our message can't really be any harder. What

²⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 82

²¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

²² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 32

²³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 82

we're offering up, by means of training, has given us confidence, as organisations, that this is getting out there into the field, literally. But we do understand that this is a new code and we do have a lot of work to continue to promote this.²⁴

21. O ran cryfhau'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r Cod, trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o gyflwyno system debyg i'r drefn sydd ar waith yn yr Alban. Byddai dull o'r fath yn golygu bod angen tagio maglau, a bod angen trwydded ar y sawl sy'n gosod maglau.

22. Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet y cwestiwn a oedd achos i ddilyn model yr Alban mewn gohebiaeth at y Pwyllgor:

“Mae'r Alban wedi creu deddfwriaeth ychwanegol ynghylch maglau trwy Wildlife and Natural Environment (Scotland) Act 2011. Mae gofyn gosod 'stopiau' ar faglau ac mae gofyn i ddefnyddwyr fynd ar gwrs hyfforddi a chofrestru rhif adnabod personol y mae'n rhaid ei ddangos ar y magl unigol. Rydym ni'n deall bod Llywodraeth yr Alban am adolygu'r trefniadau hyn cyn hir a bydd diddordeb gen i weld a fydd y mesurau ychwanegol hyn wedi codi safonau maglu.”²⁵

23. Wrth gyfeirio at y dull sydd yn cael ei ddefnyddio yn yr Alban, dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad:

“Snares are tagged in Scotland. I'm not sure the evidence has come forward from Scotland that that has been a successful policing tool, and even if that policing tool is needed. There's a huge burden. It's another layer of burden, not only on the people who set the snares, but, importantly, on the police and whoever administers the tagging.”²⁶

Monitro

24. Ceisiodd y Pwyllgor gadarnhau i ba raddau y mae'r gwaith o weithredu'r Cod yn cael ei fonitro. O ran y gyfundrefn fonitro bresennol, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru: “There's no obvious kind of data collection or monitoring regime that picks up the use of snares”.²⁷ Aeth ymlaen i ddweud iddo ofyn yn y cyfarfod â rhanddeiliaid, ar 16 Tachwedd 2016, am dystiolaeth o faint o aelodau'r grŵp a oedd yn ymwneud â maglau ac a allent gasglu rhywfaint o wybodaeth am hynny ynghyd.²⁸

25. Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Rydym wedi cwrdd â llawer o fudiadau sydd â diddordeb mewn maglau ac mae llawer o'r grwpiau hyn wedi bod yn hyrwyddo ac yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio maglau a'r Cod. Rydym yn gweithio â nhw i ddarparu tystiolaeth am gydymffurfiaeth â'r Cod a sut i ddefnyddio maglau'n well.”²⁹

²⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 181

²⁵ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

²⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 204

²⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 178

²⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 178

²⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

26. Holodd y Pwyllgor a oedd y cyfarfod hwn yn adolygiad ffurfiol o'r Cod ai peidio. Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai cyfle i adolygu'r sefyllfa oedd y cyfarfod gyda rhanddeiliaid:

“The meeting on the 16th was a kind of refresh of that, just to see how far we'd gone in terms of promulgating that within the industry—how well it had been taken forward, how it had been taken up, any particular issues or problems they'd identified with the code.”³⁰

Casglu data a gwybodaeth

27. Dywedodd y rhai a gyfrannodd at ymchwiliad y Pwyllgor ei bod yn anodd dweud i ba raddau y defnyddir maglau yng Nghymru. Roedd awgrym y gallai fod cysylltiad rhwng y cynnydd yn y defnydd o faglau â'r cynnydd o ran bridio adar i'w hela yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth i ddod at unrhyw gasgliadau pendant.

28. Cyfeiriodd y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon at astudiaeth yn 2012 o'r enw 'Selectivity and injury risk in an improved neck snare for live-capture of foxes' ar gyfer y cyfnodolyn, Wildlife Society Bulletin,³¹ gan ddweud bod yr astudiaeth yn dangos:

“... that most of the animals were not targeted animals, for a long range. The target was the foxes, and they only got 28 per cent. There were 54 per cent brown hares, 9 per cent badgers, 4 per cent deer, and 5 per cent others. Of course, these others may include pets, may include pine martens, may include otters, may include badgers.”³²

29. Holodd y Pwyllgor yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwylt ynglŷn ag astudiaeth a gynhaliwyd ar gyfer Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU, a gyhoeddwyd yn 2010, o'r enw 'Determining the extent and humaneness of snares in England and Wales'.³³ Mae'r astudiaeth yn cynnwys ffigurau am y nifer fawr o rywogaethau a ddaliwyd nad oeddent wedi'u targedu. Dyma ei ateb:

“I think those statistics refer to non-code-compliant snares, not code-compliant ones. Code-compliant ones don't retain the same high numbers of non-target animals.”³⁴

30. Rhybuddiodd hefyd rhag llunio casgliadau ar sail y ffigurau yn adroddiad Defra:

“On DEFRA's statistics, it seems to us that what the League Against Cruel Sports have done is take the results of one research scientist, operating in the south of England, to carry out that piece of work that we talked about a moment ago, where we caught 14 foxes and satisfied the AIHTS, and then multiplied that up by a number of snares that they think people, on average, are using, and then multiplied that by a guess as to how many people are using snares in

³⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 169

³¹ [Short, Weldon, Richardson a Reynolds: Selectivity and injury risk in an improved neck snare for live-capture of foxes, Wildlife Society Bulletin, Ebrill 2012](#)

³² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 22

³³ [Determining the extent and humaneness in England and Wales, Defra](#)

³⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 114

Wales. Now, that ain't exactly sound statistical analysis. Taking one person's results and multiplying up, and multiplying up again, is a very, very spurious thing. And, indeed, the report authors said you should not extrapolate in that sort of way from these figures."³⁵

31. Awgrymodd y Gynghrair Cefn Gwlad y byddai defnyddio'r ffigurau ynghylch maglau y mae'r heddlu'n eu casglu yn ffordd fwy cywir o amcangyfrif faint o faglau a ddefnyddir:

"If I take one particular police force, they have 10 wildlife crime officers working within that force, and the stats for what they called 'snare-trapping incidents'-which could include some other types of traps as well-in 2014, there were seven incidents; in 2015, there were 10, and, in 2016, there were seven. So, if we are going to take any notice at all of the insane figures that have been put forward by the league of 370,000 mammals a year being snared in Wales-that's more, incidentally, than the mammal population-and that goes by their statistics, which are something in the region of 125,000 hares and badgers; that's pre-breeding season. When we look at the police figures, they give us a clear indication that, if we are trapping that many animals or mammals in Wales on an annual basis, we would be seeing a lot more."³⁶

32. Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet sut y mae Llywodraeth Cymru yn casglu data am ddefnyddio a gwerthu maglau yng Nghymru, gan ddweud:

"Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid gydol y broses o ddatblygu a chynnal Cod Arferion Gorau ar ddefnyddio maglau i reoli cadnoid (llwynogod). Yn eu plith mae'r heddlu, sy'n ymchwilio i droseddau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n ymwneud â maglau. Rydym wedi gofyn iddyn nhw am wybodaeth am achosion o gydymffurfio â'r Cod ac o fynd yn grows iddo. Rydym hefyd yn siarad â phrif werthwyr maglau yng Nghymru a'u cyflenwyr ynghylch ffigurau gwerthiant."³⁷

Ddefnyddio maglau ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru

33. Gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio a ganiateir defnyddio maglau ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Dyma a ddywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio maglau ar ei ystâd coetiroedd ac nid yw'n annog eu defnyddio."³⁸

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'n drosedd peidio â chydymffurfio â'r Cod. Fodd bynnag, gellir dibynnu ar achosion o beidio â chydymffurfio â'r Cod mewn achos llys wrth sefydlu atebolrwydd. Mae'r diffyg cosbau am fethu â dilyn y Cod yn amlwg yn gwanhau ei effaith.

³⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 131

³⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 123

³⁷ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

³⁸ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

Dylid defnyddio adolygiad Llywodraeth yr Alban o'r dull a ddefnyddiwyd ganddi i lywio'r dull gweithredu yng Nghymru. Dylid edrych ymhellach ar unrhyw fesurau sy'n cynyddu'r defnydd o faglau sy'n cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid monitro a pharhau i adolygu'r broses o weithredu'r Cod a'i effaith. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod trafodaethau wedi'u cynnal mewn cyfarfod gyda rhanddeiliaid tua blwyddyn ers rhoi'r Cod ar waith, ond nid yw hyn yn diwallu'r angen am adolygiad o effeithiolrwydd y camau sy'n cael eu cymryd. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru roi trefniadau adolygu mwy ffurfiol ar waith cyn pen tair blynedd ers cyflwyno'r Cod. Dylai'r broses adolygu honno gael ei chynnal bob blwyddyn o hyn ymlaen a dylid cyhoeddi adroddiad o'r adolygiad, yn cynnwys ei ganlyniadau.

Mae'n glir o'r dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru fod diffyg data ynghylch yr arfer o ddefnyddio maglau yng Nghymru. Roedd yn amlwg hefyd bod anghytuno ynghylch cywirdeb y data a gyflwynwyd fel tystiolaeth, gyda'r amod bod y ffigurau'n cynnig llawer o le am wallau. Mae hyn yn fater sy'n peri pryder i'r Pwyllgor. O gofio'r diffyg eglurder ynghylch nifer y maglau a ddefnyddir sy'n cydymffurfio â'r Cod a nifer y rhai sy'n mynd yn groes i'r Cod, mae'n anodd gweld sut y gall Llywodraeth Cymru asesu effeithiolrwydd ei pholisïau heb ddata o'r fath.

Fel rhan o'i phroses o adolygu'r Cod, credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi systemau ar waith i sicrhau bod data priodol yn cael eu casglu am y graddau y caiff maglau sy'n cydymffurfio â'r cod eu defnyddio a'u gwerthu. Dylid cyhoeddi'r data erbyn mis Medi 2018.

Ar sail ei adolygiad blynyddol o'r data sydd ar gael, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach a oes angen rhagor o newidiadau polisi, gan gynnwys a ddylai'r Cod fod yn statudol neu a oes angen deddfwriaeth sylfaenol.

Rydym yn credu y dylid gwahardd defnyddio maglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r cod ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, ac ni wnaeth ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dawelu ein pryderon ynglŷn â'r mater hwn.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad blynyddol o'r Cod a chyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw.

Argymhelliad 2. Os bydd yr adolygiad blynyddol o'r Cod yn dangos nad yw'n gweithio, yna dylai Llywodraeth Cymru dynhau'r gyfraith ar ddefnyddio maglau yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno cosbau am beidio â chydymffurfio â'r Cod.

Argymhelliad 3. Os bydd tystiolaeth yn dangos nad yw'r dull gwirfoddol wedi llwyddo, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi deddfwriaeth ddrafft. Wrth baratoi'r ddeddfwriaeth honno, dylid ystyried yr opsiynau a ganlyn:

- cyflwyno gofynion tebyg i'r rhai yn yr Alban ynghylch hyfforddiant ac adnabod, ac ymchwilio i system drwyddedu i'w hariannu gan ddefnddwyr;
- a ddylid gwneud perchennog y tir lle y canfyddir maglau yn atebol i gael ei erlyn; gallai hyn leihau problemau o ran cadarnhau pwy sy'n berchen ar faglau a thrafferthion o ran sicrhau erlyniadau llwyddiannus.

Argymhelliad 4. Os dangosir nad yw'r mesurau gorfodi diwygiedig a restrir yn Argymhelliad 3 yn lleihau dioddefaint yn y gwaith o reoli plâu drwy ddefnyddio maglau

nac yn ei wneud yn fwy effeithlon, yna dylai Llywodraeth Cymru ystyried deddfu i wahardd y defnydd o faglau.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad o'r bylchau o ran y data sydd ar gael a chymryd camau brys i gael y wybodaeth sydd ei hangen i asesu effeithiolrwydd ei pholisi.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Medi 2018, ac yn flynyddol wedi hynny, ar y graddau y defnyddir maglau yng Nghymru. Fel rhan o'r broses adrodd hon, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu system ar gyfer pennu nifer yr anifeiliaid a pha rywogaethau sy'n cael eu dal mewn maglau.

Argymhelliad 7. Dylid gwahardd y defnydd o faglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r cod ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

03. Effeithiolrwydd y Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid

34. Fel y nodwyd yn flaenorol, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Cod ymarfer yn ei gwneud yn glir mai dim ond fel dewis olaf y dylid ystyried defnyddio maglau.

35. Mae'r Cod yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â'r canlynol:

- Ystyried ble a phryd i osod maglau ar gyfer cadnoid, os o gwbl;
- Sut i osod maglau;
- Archwilio a chael gwared ar faglau a charcasau.

Hyrwyddo a hyfforddiant

36. Mae'r Cod yn argymhell yn gryf y dylai pobl ddilyn hyfforddiant.³⁹ Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt wrth y Pwyllgor ei bod wedi hyfforddi tua 2,000 o giperiaid ledled Cymru a Lloegr i osod maglau yn unol â'r Cod.⁴⁰ Cymeradwyodd gwerth hyfforddiant heb gytuno'n benodol y dylai fod yn ofynnol i bawb sy'n defnyddio maglau i ddilyn hyfforddiant gorfodol. Roedd yn dadlau bod y dull hwnnw'n anghywir, gan fod pobl sy'n gosod maglau am wneud hynny'n dda.⁴¹

37. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod hyfforddiant ar ddefnyddio maglau a'r Cod yn cael ei ddarparu gan yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt a'i fod ar gael yn ôl y galw.⁴²

Argaeledd maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod

38. Mae'r Cod yn nodi ei bod yn anghyfreithlon defnyddio magl gloi ac felly dim ond maglau dirwyn y caniateir eu defnyddio. Caiff maglau dirwyn eu diffinio yn y Cod fel, "dolen weiar sy'n llacio pan fydd y cadno'n rhoi'r gorau i dynnu".⁴³ Mae'r mathau hyn o faglau wedi'u cynllunio fel bod anifail sy'n fwy ac yn fwy pwerus na chadno yn gallu torri'r 'llynell wan' yn y ddolen weiar a dod yn rhydd. Mae defnyddio 'magl gloi' yn anghyfreithlon.

39. Clywsom gan yr ymgyrch yn erbyn maglau nad ydynt wedi'u hargyhoeddi bod caniatáu maglau dirwyn yn lleihau dioddefaint anifeiliaid. Dywedodd Mr Wild:

"Ninety per cent of commercial snares are bought in agricultural suppliers or on the internet and it was never defined what makes a self-locking snare, but we've taken it that they ratchet up and get ever tighter ... and so free-running snares really are a bit of a joke. They're not humane."⁴⁴

40. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru:

³⁹ Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid, Llywodraeth Cymru, 2015

⁴⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 190

⁴¹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 194

⁴² [Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017:](#)

<http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s58437/Letter from the Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs on the use of snares in Wales.pdf>

⁴³ <http://gov.wales/docs/desh/publications/150915-code-of-practice-snares-cy.pdf>

⁴⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 44

“...wrthi’n trafod gyda’r busnes sy’n cyflenwi 95% o’r maglau a werthir i siopau ffermwyr yng Nghymru. Mae e’n gweithio gyda’i gynhyrchydd maglau i greu dyluniad gwell inni. Rydyn ni wedi gofyn i’r sector hela am eu barn am y magl a’i asesu i weld a yw’n cydymffurfio â’r Cod. O wneud, rydyn ni wedi gweld agweddau y gellid eu gwella. Mae’r cyflenwr wrthi’n ystyried ein sylwadau ar y bwrdd ac yn gweithio gyda’i gynhyrchydd i greu magl newydd inni allu ei gloriannu yng nghanol mis Chwefror. Os bydd y magl yn anfodddhaol, ein bwriad yw cwrdd â’r cyflenwr a’r cynhyrchydd i drafod y diffygion.”⁴⁵

41. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i nodi:

“Rydyn ni wedi pwysleisio hefyd wrth gyflenwyr a siopau ei bod yn bwysig bod maglau sy’n cydymffurfio â’r Cod ar gael yn rhwydd, a thrwy bartïon â diddordeb, rydym wedi bod yn hyrwyddo’r Cod a hyrwyddo defnyddio maglau sy’n cydymffurfio â’r Cod.”⁴⁶

Ein barn ni

Rydym yn credu bod y Cod yn cynnig ffordd o reoli’r defnydd o faglau yng Nghymru os yw’n cael ei weithredu a’i orfodi’n briodol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid oes digon o ddata i asesu effeithiolrwydd y Cod. Rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fynd i’r afael â hyn, a chyflwyno adroddiad yn cynnwys y data angenrheidiol erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

Dywedwyd wrthym fod 2,000 o giperiaid ledled Cymru a Lloegr wedi’u hyfforddi i osod maglau yn unol â’r Cod. Fodd bynnag, ni chafodd y Pwyllgor wybodaeth benodol am nifer y ciperiaid yng Nghymru sydd wedi cael yr hyfforddiant hwn. Heb gael y wybodaeth honno, mae’r Pwyllgor yn pryderu na all Llywodraeth Cymru asesu’n gywir faint o bobl sydd wedi dilyn yr hyfforddiant hwn yng Nghymru.

Unwaith y bydd y data hyn ar gael, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad trylwyr o’r Cod i benderfynu a yw wedi llwyddo i wneud y defnydd o faglau yn llai creulon, ac yn fwy effeithlon a gorfodadwy. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd barhau i adolygu dyluniad maglau sy’n cydymffurfio â’r Cod, er mwyn bod yn sicr ei fod yn bodloni’r safonau uchaf posibl.

Ym marn y Pwyllgor, mae llwyddiant y Cod yn dibynnu’n helaeth ar sicrhau bod maglau sy’n cydymffurfio â’r Cod ar gael am gost resymol. O ganlyniad, mae’r Pwyllgor yn pryderu am gynnydd araf y trafodaethau â’r prif gyflenwr maglau yng Nghymru. O gofio bod maglau rhad ar gael ar y rhyngwrdd, mae angen sicrhau ar frys bod maglau sy’n cydymffurfio â’r Cod ar gael yn eang ac yn rhad.

Hoffai’r Pwyllgor i’r Cod gael ei hyrwyddo’n ehangach er mwyn cyrraedd pawb sy’n defnyddio maglau, er enghraifft mewn cymunedau trefol.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell y dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o’r Cod ar yr arfer orau adrodd ar:

- gamau gorfodi mewn perthynas â’r Cod a nifer yr erlyniadau llwyddiannus, os o gwbl;

⁴⁵ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

⁴⁶ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

- cost ac argaeledd maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod; a
- nifer y bobl sy'n cael eu hyfforddi i ddefnyddio maglau yn unol â'r Cod a'r dulliau a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwnnw.

04. Datblygu deddfwriaeth berthnasol yn y dyfodol yn ymwneud â lles anifeiliaid

Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o Ddeddfwriaeth Diogelu Bywyd Gwylt

- 42.** Yn 2011, gofynnodd Defra, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r deddfwriaeth gyfredol ar gyfer diogelu bywyd gwylt ac ystyried a oedd yn addas at y diben.
- 43.** Ar 10 Tachwedd 2015, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr **gasgliadau**⁴⁷ ei adolygiad o'r gyfraith diogelu bywyd gwylt. Yn ei adroddiad terfynol, daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad bod y gyfraith bresennol ar ddiogelu bywyd gwylt yng Nghymru a Lloegr yn gymhleth, yn rhy ddryslyd ac weithiau'n anghyson. Argymhellodd felly y dylid cyflwyno Bil Bywyd Gwylt newydd i ddisodli'r holl ddarnau cyfredol o deddfwriaeth yn y maes hwn.
- 44.** Awgrymodd Comisiwn y Gyfraith y gellid cyflwyno'r Bil hwn fel Bil Cymru a Lloegr a gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad, neu y gallai'r ddau sefydliad gyflwyno'r un darn o deddfwriaeth ar wahân, un i Gymru ac un i Loegr.
- 45.** Mewn perthynas â maglau, daeth Comisiwn y Gyfraith i'r **casgliad y dylai'r gwaharddiad**⁴⁸ (ar ddefnyddio maglau cloi barhau. Mewn perthynas â maglau ac eithrio maglau cloi, daeth i'r casgliad y dylai maglau o'r fath gael eu rheoleiddio'n llymach. Fodd bynnag, ni amlinellodd farn ar eu gwahardd.
- 46.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith ar 16 Chwefror 2017, gan ddatgan:

“Ystyriodd Llywodraeth Cymru gynigion Comisiwn y Gyfraith yng nghydestun hynt Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016, a chanlyniad refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016. Yng ngoleuni'r ddau, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar hyn o bryd. Er hynny, defnyddir yr adroddiad a'r Bil drafft fel rhan o'r Sylfaen dystiolaeth i lywio cyfleoedd deddfwriaethol yn y dyfodol i warchod bywyd gwylt yng Nghymru.”⁴⁹

- 47.** Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth bellach gan Ysgrifennydd y Cabinet ar ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Comisiwn y Gyfraith. Wrth ymateb i'r mater hwnnw a chwestiwn ynghylch casgliad yr adroddiad y dylai maglau dirwyn gael eu rheoleiddio'n dynnach, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Caiff adroddiad Comisiwn y Gyfraith ei ddefnyddio i helpu i benderfynu ar y ffordd ymlaen ar gyfer gwarchod bywyd gwylt yng Nghymru. Mae'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad i ddefnyddio magl cloi. Yn fy mam i, mae'r Cod Arferion Gorau yn rhoi arweiniad clir ar sut i

⁴⁷ www.lawcom.gov.uk/project/wildlife-law/

⁴⁸ Comisiwn y gyfraith, Wildlife Law, cyfrol 1 o'r adroddiad, LAW COM 362, Tachwedd 2015

⁴⁹ www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10937/gen-ld10937-w.pdf

ddefnyddio ac archwilio maglau. Ein hamcan ni yw sicrhau maglau dirwyn yn cael ei defnyddio'n unol â'r Cod Arferion Gorau ar faglau.”⁵⁰

48. Wrth roi tystiolaeth lafar, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallai'r Cynulliad ddeddfu i wahardd defnyddio maglau. Wrth ymateb i ymholiad ym mis Mehefin 2017, pan ofynnwyd a oedd unrhyw gynlluniau i ddeddfu ynghylch maglau, dywedodd Llywodraeth Cymru: 'Rydym yn parhau i adolygu ein safbwynt ar faglau, ac mae hyn yn cynnwys casglu tystiolaeth a hyrwyddo'r cod ymarfer ar ddefnyddio maglau i reoli cadnoid'.⁵¹

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid parhau i adolygu cyfreithlondeb defnyddio maglau. Rydym yn cytuno â chasgliad Comisiwn y Gyfraith y dylid rheoleiddio'r defnydd o faglau yn dynnach. Os bydd angen, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i roi effaith i'w pholisïau.

⁵⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2017

⁵¹ Gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

05. Dewisiadau amgen yn lle defnyddio maglau

49. Ym marn Llywodraeth Cymru, dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio maglau. Mae'r Cod yn nodi: "Ystyriwch ddulliau lladd eraill a dulliau sydd ddim yn lladd i ddatrys eich problem cadnoid pob tro. Peidiwch â defnyddio magl oni bai bod y dulliau eraill yn anymarferol, yn rhy ddrud neu'n aneffeithiol".

50. Mae'r Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon a'r Ymgyrch yn Erbyn Maglau⁵² yn credu bod maglau yn anwahaniaethol ac maent wedi datgan nad y llwynogod a dargedir yw hyd at ddwy ran o dair o'r anifeiliaid a ddaliwyd. Awgrymodd yr Ymgyrch yn Erbyn Maglau mai dim ond am fod anifeiliaid anwes yn cael eu dal y mae'r defnydd o faglau yn cael ei gofnodi'n aml, am fod eu perchnogion yn rhoi gwybod am y digwyddiad.⁵³

51. Mae'r Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon a'r Ymgyrch yn Erbyn Maglau yn credu bod maglau'n achosi gofid a marwolaeth i rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu. Dywedodd y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon:

"The more the animal moves and tries to escape, the more it gets strangled and will probably die by strangulation.

You can't have a system that releases all the non-targets perfectly well, very quickly, without creating fear or distress and only catches target animals."⁵⁴

52. Mae'r ddau sefydliad yn credu ei bod yn amhosibl dylunio magl nad yw'n greulon. Am y rheswm hwnnw, maent yn argymhell gwahardd defnyddio maglau yn llwyr.⁵⁵

53. O ran y dewisiadau amgen a awgrymwyd yn lle maglau, dywedodd y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon fod gosod trapiau a saethu ill dau yn well na defnyddio maglau.⁵⁶ Gwnaethant ddadlau hefyd fod dewisiadau amgen ar gyfer rheoli bywyd gwyllt, gan gynnwys bugeilio a gadael i'r boblogaeth llwynogod reoli ei hun.⁵⁷

54. Wrth ymateb i'r awgrymiadau hyn, awgrymodd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt a'r Gynghrair Cefn Gwlad fod trapiau yn achosi niwed a gofid i anifeiliaid ac nad yw saethu yn ymarferol ar adegau penodol o'r flwyddyn. Er enghraifft, dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad:

"Rwy'n credu ein bod ni wedi hen fynd heibio'r diwrnodau pan oeddech chi'n gallu fforddio rhoi bugail ar ben y mynydd dim ond i reoli cadnoid. Yn fy marn i, mae hynny'n hollol *ridiculous*. Mae'r defnydd o reoli cadnoid wedi mynd yn llai; nid oes hela fel hynny rhagor nac oes? Felly rydym yn gorfod chwilio am y

⁵² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd, 2016, paragraff 20; Deiseb gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon, 14 Medi 2016:

www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s53912/Cover%20Sheet.pdf

⁵³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 44.

⁵⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 41.

⁵⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 95.

⁵⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraffau 14 ac 16

⁵⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 14

methods gorau i'r ardal. Felly, mae'r fagl yn rhan bwysig iawn o fugeilio'ch defaid.”⁵⁸

55. Roedd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yn dadlau nad yw saethu'n ymarferol bob amser, er y gallai hynny fod yn ddull gwell:

“So, when we talk about shooting foxes, yes, for me, that may well be a preferred option. This time of year, the cover is low, but when we move into the spring and the summer when there are lambs about and I set snares on behalf of the farmers, also you have birds such as curlews, red-listed birds et cetera—I can't shoot foxes that time of year because the cover is this high. So, I need another method to catch those foxes that are a problem at that time and snares are the only method that fit the bill.”⁵⁹

56. O ran gosod trapiau yn lle defnyddio maglau, roedd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yn dadlau nad oedd hyn yn ymarferol ychwaith:

“Not trapping. I mean, logistically—again, I'm talking about myself, I live in mid Wales. If I have a fox that's causing a predation problem on the hill, how am I going to carry a big trap across the farmer's field, damaging the crops? I can put three or four snares neatly in my bag, walk up a wheel mark and set them, catch the fox and bring the snares back.”⁶⁰

57. Roedd yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt yn dadlau nad yw trapiau'n ffordd llai creulon o reoli plâu.

“There's this widespread misunderstanding that animals caught in cages are all right. Domestic rabbits carried around in a cage are fine. Wild animals try to get out of cages, and in the process they injure themselves. We haven't tried to test it, but it's my firm belief that if you did try to test against the agreement on international humane trapping standards, you would find that cage-trapping foxes fails. They bite their way out and break teeth. They break their claws, and so on and so forth, and non-target animals, similarly—especially predatory ones—will cause themselves considerable injury.”⁶¹

Ein barn ni

Nid oes digon o dystiolaeth ar gael i asesu effeithiolrwydd, creulondeb ac ymarferoldeb cymharol ffyrdd eraill o reoli plâu. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith pellach i asesu'r dewisiadau amgen yn lle defnyddio maglau.

⁵⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 253

⁵⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 309

⁶⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 311

⁶¹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016, paragraff 116

Atodiad – Rhestr o’r dystiolaeth

Tystiolaeth lafar

Cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 30 Tachwedd 2016	
Enw	Sefylliad
Jordi Casamitjana	Pennaeth Polisi, y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon
Rhiannon Evans	Uwch Swyddog Materion Cyhoeddus Cymru, y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon
Simon Wild	Yr Ymgyrch Genedlaethol yn Erbyn Maglau
Mike Swan	Yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt
Rachel Evans	Y Gynghrair Cefn Gwlad
Glynn Evans	Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

Cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016	
Enw	Sefylliad
Lesley Griffiths AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Tystiolaeth ysgrifenedig

Dyddiad	Gohebiaeth
27 Medi 2016	Deiseb a gyflwynwyd i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau yng Nghymru
13 Medi 2016	Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at Mike Hedges, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
7 Medi 2016	Llythyr at aelodau’r Pwyllgor Deisebau gan y Gynghrair Cefn Gwlad, yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt a’r Gymdeithas Ciperiaid Cenedlaethol
20 Medi 2016	Ymateb gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon i’r Llythyrau gan y Gynghrair Cefn Gwlad ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
26 Hydref	Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
10 Tachwedd 2016	Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
13 Rhagfyr 2016	Llythyr oddi wrth y Gynghrair Cefn Gwlad at Mark Reckless, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
18 Ionawr 2017	Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at Mark Reckless, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig